

Fformiwla Cyllido Ymchwil Ansawdd (YA)

1. Rydym yn dyrannu cyllid YA mewn modd dethol i gydnabod ac atgyfnerthu rhagoriaeth mewn ymchwil. Darperir y data allweddol yn y fformiwla YA gan y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2014, a gynhaliwyd ar y cyd gan bedwar corff cyllido addysg uwch y DU.
2. Cyflwynwyd ymchwil i FfRHY 2014 mewn 36 o gategoriâu pwnc neu Unedau Asesu (UAau). Cafodd canlyniadau'r asesiad eu cyfleu ar ffurf proffiliau ansawdd a ddangosai gyfran y gwaith ym mhob cyflwyniad a gyrhaeddodd bob un o'r pedwar proffil ansawdd. Roedd y rhain yn amrywio rhwng 4* (yn arwain y byd) ac 1* (wedi'i gydnabod yn genedlaethol) Nodir gwaith sy'n is na safon 1* yn waith heb ei ddsbarthu (H/Dd)
3. Yn gyson â'n datganiad ar bolisi ymchwil, rydym yn canolbwyntio ar ragoriaeth ymchwil gynaliadwy wrth ddyrannu cyllid YA. Yn benodol:
 - nid ydym yn cynnwys ymchwil 1* na 2* yn ein fformiwla dyrannu YA
 - rydym wedi cymhwyso trothwy cynaliadwyedd (ansawdd a maint cyfun). Cyfrifir hyn drwy luosi nifer y staff yn 3* a 4* ym mhob cyflwyniad FfRhY 2014 ar sail pwysoliadau ansawdd (1 ar gyfer 3* a 3 ar gyfer 4*), gan adio'r canlyniadau i greu sgôr gyfun ar gyfer pob cyflwyniad, cyn cymhwyso uchafswm ar gyfer cyllido. Ar gyfer 2015/16 yr uchafswm oedd sgôr o 6.0.
 - Rydym hefyd yn cymhwyso trothwy ar gyfer maint, fel nad yw adrannau/unedau sy'n cynnwys llai na 3 CALI Categori A o waith wedi'i ddsbarthu (1* ac uwch) yn gymwys ar gyfer YA.
4. Mae'r fformiwla YA yn cynnwys tair elfen: ansawdd, maint a chost cymharol pynciau. Caiff pob un o'r elfennau hyn eu pwysoli fel a ganlyn:
 - **Ansawdd** - caiff pedair lefel proffil ansawdd y FfRhY eu pwysoli fel a ganlyn:
 - 1* - 0
 - 2* - 0
 - 3* - 1
 - 4* - 3
 - **Maint** - mae hyn yn cynnwys un prif fesuriad mawr - nifer y staff Cyfwerth ag Amser Llawn (CALI) sy'n weithgar mewn ymchwil (staff Categori A) a adroddwyd wrth FfRhY 2014 - a nifer o fân fesuriadau eraill. Dyma'r mesuriadau maint a'r pwysoliadau cysylltiedig:

Staff sy'n weithgar mewn ymchwil	1.00
Myfyrwyr ymchwil	0.15
Cynorthwywyr ymchwil	0.10
Cymrodyr ymchwil	0.10
Incwm elusennol wedi'i drosi'n niferoedd staff cyfwerth ag amser llawn	0.25

Daw'r data ar gyfer y mân fesuriadau maint o ffigurau a gyflwynwyd i FfRhY 2014 ac o ddata HESA.

- **Perthynoledd Cost Pwnc** - caiff pynciau (UAau) eu rhannu'n dri band a'u pwysoli i adlewyrchu eu costau cymharol. Dyma'r bandiau a'u pwysoliadau:

Meddygaeth glinigol a phynciau labordy 1.6
Pynciau â phreimiwm technegol / arbrofol 1.3
Pynciau eraill 1.0.

5. Caiff dyraniadau eu cyfrifo ar sail UAau, gan ddefnyddio cyflwyniadau FfRhY 2014. Bydd unrhyw gyflwyniadau nad ydynt yn bodloni'r trothwyon ansawdd a maint a ddisgrifir ym mharagraff (3) uchod wedi'u heithrio wrth gyfrifo. Ar gyfer yr holl gyflwyniadau eraill, caiff y mesurau maint eu pwysoli'n unol â'r pwysoliadau maint a nodir uchod. Caiff y cynnyrch ei luosi â'r pwysoliad perthnasol ar gyfer cost y pwnc, ac wedyn â'r pwysoliadau ansawdd. Caiff y pwysoliad olaf ei gymhwyso'n gymesur â'r proffil ansawdd ar gyfer y cyflwyniad.
6. Caiff y canlyniadau terfynol wrth gyfrifo'r fformiwla eu graddio'n unol â chyfanswm y cyllid sydd ar gael ar gyfer YA yn y flwyddyn dan sylw.
7. Dyrennir dwy elfen o gyfanswm y gyllideb YA ar sail wahanol:
 - Dyrennir £6.1 miliwn ychwanegol a ychwanegwyd at YA yn 2009/10 yn gymesur ag ansawdd 4* yn unig. Caiff y pwysoliadau maint a phwnc safonol hefyd eu cymhwyso i'r elfen hon.
 - Darperir £3.1 miliwn er mwyn helpu sefydliadau i dalu cost economaidd lawn ymchwil a ariennir gan elusennau. Dyrennir y cyllid hwn yn gymesur â'r incwm ymchwil gan elusennau'r DU mewn unedau sy'n bodloni trothwyon maint ac ansawdd YA.
8. Mae cyllid YA hefyd yn cynnwys swm o £132k a oedd wedi'i ddyrannu'n flaenorol i Wasg Prifysgol Cymru. Mae'r cyllid hwn wedi'i neilltuo o fewn YA er mwyn ariannu cyhoeddiadau ysgolheigaidd a gweithgareddau cysylltiedig ym maes diwylliant, hanes a llenyddiaeth Cymru. Mae sefydliadau wedi cael gwybod yn unigol faint sydd wedi'i neilltuo o fewn eu dyraniadau ar gyfer hyn.